**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED LLANDDOGED, LLANDDOGED, NOS LUN, 27ain IONAWR, 2025**

**1**

1. 1 **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

1.2**PRESENNOL**

Cyng. Hefin Martin(HM (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris(AM), Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ), Cyng. Anwen Jones(AJ), Cyng Nerys Dobson(ND), Cyng. John Owen(JO), Cyng Rhys Griffiths(RG), Delyth Algieri (clerc).
Cyng Nia Owen(Cynghorydd Sir)(NO)

1.3 **YMDDIHEURIADAU**

Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)(AW) ,Cyng. Eifion Williams(EW

2. **CADARNHAU'R COFNODION 25ain TACHWEDD, 2024**

Cynnigwyd y cofnodion yn gywir gan (ND) ac eilwyd gan ( JO).

3.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 **PLAC HANES Y CAWR CADAIR IFAN GOCH**

Bydd y clerc yn cysylltu eto gyda Ymddiriedolaeth Genedlaethol am y diweddariad ynglŷn â'r plac.

4. **CYNLLUNIO**

Cais rhif 0/52152 – Cais cynllunio ol-weithredol ar gyfer gosod boeler biomas newydd, yn ogystal ag ystafell odyn gysylltiedig – Bryn Morfydd Mawr, Llanddoged.
Trafodwyd y cais cynllunio uchod a phasiwyd aelodau'r cyngor fod dim gwrthwynebiad i'r cais.

5. **PRAESEPT**

Rhannodd y clerc daflen o'r amcangyfrif gofynion praesept ar gyfer 2025/26. Trafodwyd y gofynion archebiant ar gyfer 2025/26 a phasiwyd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i gadarnhau i ofyn am £6500.00 gan fod gan y Cyngor arian wrth gefn ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**6. CYNNAL** A CHADW

6.1 Angen torri'r cangen coeden sydd yn hongian ar ffordd Llanddoged wrth Plas Ednyfed.
6.2 Twll yn y ffordd wrth Cae Brychiad Llanddoged.
6.3 Twll ar allt Penbryngaled, Llanddoged.
6.4 Angen edrych ar gyflwr y ffordd gwaelod allt Tyn y Coed, Maenan.
6.5 Dwr yn rhedeg i'r ffordd ar allt rhwng Pencraig Arthur a Groesffordd, Llanddoged.
6.6 Angen sweeper:- Allt Penrhwylfa hyd at Park Maenan.
Tyddyn Frencher hyd at Bryn Rhydd, Maenan
Ffordd Belmont i fynu heibio Sarn Llanddoged
6.7 Nifer o arwyddion ffyrdd wedi cael ei gadael ar ochr y ffordd wrth y 'Pumping Station' Pont y Garth Maenan, hefyd mae polyn ffon wedi dod i lawr wrth ymyl y safle yma.

7. **UNRHYW FATER ARALL**

7.1 **Ffynnon Doged Llanddoged**

Drws y Ffynnon Doged wedi torri a dod i ffwrdd ar ôl y storm ddiwethaf. Diolchwyd i Cyng. Eifion Williams am osod drws dros dro ar y ffynnon. Y clerc am gysylltu gyda Trefor Roberts, Wern, Ffordd Efail Uchaf, Llanddoged i holi pwy sydd yn gyfrifol am y ffynnon.

7.2 **PENCRAIG ARTHUR LLANDDOGED**

Derbyniwyd y cyngor e-bost gan Madaline Raven, Pencraig Arthur, Llanddoged gyda gwybodaeth am eu pryderon am feiciau modur yn gwneud difrod ar y tramwy wrth ymyl eu cartref. Nododd Cyng. Nia Owen fod hi a Cyng. Aaron Wynne wedi trefnu i ymweld â Mr a Mrs Raven ym Mhencraig Arthur ac y byddent yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned wedi hynny.

7.3 **RHODD ARIANNOL TREIALON CŴN DEFAID CENEDLAETHOL**

Derbyniwyd llythyr gan Gadeirydd Treialon Cŵn Defaid Cenedlaethol gyda chais am rodd ariannol – pasiwyd aelodau'r cygor drwy godi eu dwylo i gadarnhau anfon siec o £100 iddynt.